Independent Monitor

# Monitor Annibynnol

## Adroddiad Blynyddol 2017



## Cyflwyniad

Dyma bumed adroddiad blynyddol y Monitor Annibynnol ac mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad ar gyfer y cyfnod rhwng Ionawr a Rhagfyr 2017.

Yn fy adroddiad am 2016, ni wnes unrhyw argymhellion ond fe dderbyniais ymateb gan yr Ysgrifennydd Cartref ar y pryd cyn cyhoeddi'r adroddiad oedd yn ymateb, nid yn unig i adroddiad 2016 ond hefyd i'r argymhellion a wnaed yn fy Adroddiad Blynyddol am 2015 yn ogystal ag argymhellion a wnaed yn fy Adroddiad Blynyddol am 2014. Rhoddwyd ymateb yr Ysgrifennydd Cartref ar y pryd ynghlwm wrth fy Adroddiad Blynyddol am 2016 ac rwy'n ymrwymo i adolygu'r ymateb yn adroddiad y flwyddyn hon.

## Trosolwg o'r flwyddyn

### Atgyfeiriadau.

Cyfanswm y nifer o achosion a dderbyniwyd yn 2017 oedd 237 sy'n cymharu â'r 243 achos a dderbyniwyd yn 2016.

Mae'r nifer cyson hwn o atgyfeiriadau yn rhoi cysur a chredaf ei fod yn cefnogi fy nadl bod y gwaith a wnaed yn ystod blynyddoedd blaenorol, a ddatblygodd ddull mwy cymesur o ysgrifennu testun datgelu, yn cael effaith erbyn hyn.

### Gogledd Iwerddon

Cychwynnodd Deddf Cyfiawnder Gogledd Iwerddon ar 2 Tachwedd 2015 a'i heffaith oedd ymestyn ar rôl lawn y Monitor Annibynnol i adolygu heriau datgelu a wneir yng Ngogledd Iwerddon yn yr un ffordd â Chymru a Lloegr ar hyn o bryd. Mae'r nifer o atgyfeiriadau o Ogledd Iwerddon wedi parhau'n isel dros y cyfnod adrodd hwn gyda dim ond 1 achos yn unig wedi'i atgyfeirio ataf i'w adolygu.

Fel rhan o'm rôl rwyf wedi adolygu sampl o achosion o Ogledd Iwerddon lle mae'r heddlu naill ai wedi datgelu neu heb ddatgelu gwybodaeth. Nid wyf wedi dynodi unrhyw faterion penodol o ganlyniad i'r ymarfer hwn.

## Adolygiadau Barnwrol.

Cafwyd un achos yn ystod y flwyddyn adrodd pan heriodd ymgeisydd fy mhenderfyniad trwy ofyn am Adolygiad Barnwrol. Dyma'r hawl terfynol sydd ar gael i unigolyn sy'n anghytuno â'r wybodaeth sy'n cael ei datgelu gan yr heddlu ar Dystysgrif Fanwl o Gofnod Troseddol. Yn yr achos hwn (*R (LG) v Independent Monitor*) ni chadarnhawyd fy mhenderfyniad ac fe ataliwyd y datgeliad oherwydd canlyniad achos llys apêl (*R(SD) v North Yorkshire Police*).

O ganlyniad i'r dyfarniadau, rwyf wedi bod yn ymwneud â'r trafodaethau gyda nifer o randdeiliaid amrywiol am y mater hwn ac rwyf yn falch bod Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (NPCC) a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi cyhoeddi cyngor i luoedd heddlu yng nghyswllt y mater hwn.

Mae'r achosion yr wyf wedi eu dynodi fel rhai y mae'r pwyntiau a godwyd yn SD ac LG wedi effeithio arnynt wedi cael eu dychwelyd i'w lluoedd heddlu perthnasol i'w hystyried ymhellach ac i ddiwygio'r datgeliadau yn unol â'r cyngor diweddar.

Rwy'n cydnabod ac yn cefnogi hawl yr unigolyn i herio fy mhenderfyniadau, a gellir gwneud hynny drwy'r broses Adolygiad Barnwrol. Yn unol â blynyddoedd blaenorol, mae penderfyniadau'r llys wedi fy ngalluogi i wella'r gwaith dilynol o wneud penderfyniadau.

## Argymhellion Blaenorol.

Yn fy Adroddiad Blynyddol 2015 mi wnes ddau argymhelliad.

Fy argymhelliad cyntaf oedd y dylid ychwanegu'r heddlu at y rhestr o asiantaethau sy'n medru cael mynediad at drawsgrifiadau o achosion llys heb orfod ceisio caniatâd barnwr yr achos. Achosodd hyn oedi wrth gael trawsgrifiadau a chyfeiriwyd at hynny gan yr ymgeiswyr yn eu cyflwyniadau.  Rwyf o'r farn, mewn llawer o achosion, y gellid cyflymu'r broses herio yn fawr petai'r argymhelliad hwn yn cael ei dderbyn.

Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cartref blaenorol fel a ganlyn;

"Dywed eich argymhelliad cyntaf, at ddibenion datgelu, y dylid ychwanegu'r heddlu at restr o'r asiantaethau hynny sy'n gallu cael trawsgrifiadau llys heb geisio cymeradwyaeth ymlaen llaw gan farnwr yr achos. Rwy'n cefnogi'r argymhelliad hwn. Fel y gwyddoch, y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n arwain ar bolisi Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi. Rwyf wedi gofyn i swyddogion gydweithio ag arweinydd Datgelu'r NPCC, i ystyried a yw hyn yn rhywbeth a fyddai o fudd i ddatgeliadau'r heddlu ac, os felly, ofyn i'r NPCC ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cartref dros Gyfiawnder i gyflwyno'r ddadl."

Rwy'n ddiolchgar am y gefnogaeth i'r argymhelliad hwn a godwyd gennyf gan ei fod yn un sy'n effeithio ar brydlondeb yr achosion yr wyf yn ymdrin â nhw. Rwy'n nodi bod yr Ysgrifennydd Cartref blaenorol wedi cyfeirio'r mater yn ôl at yr heddlu i weld a yw'n broblem iddynt hwythau hefyd. Yn y cyfamser, mae'r mater hwn yn parhau yn broblem i mi a byddwn yn croesawu datrysiad iddi. Gan fod fy rôl yn un annibynnol oddi ar yr Heddlu fe fyddwn yn gofyn i'r Ysgrifennydd Cartref ystyried ysgrifennu at yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder i fynegi ei gefnogaeth i'r mater hwn.

Roedd fy ail argymhelliad yn ymwneud â datgelu gwybodaeth yn ymwneud â phobl sy'n perthyn neu â chysylltiad agos â'r ymgeisydd y mae'r heddlu yn dal gwybodaeth niweidiol amdanynt. Gelwir y rhain yn ddatgeliadau trydydd barti a theimlaf bod dull anghyson wedi ei weithredu wrth ymdrin â'r math hwn o ddatgeliad ar draws lluoedd heddlu.

Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cartref blaenorol fel hyn;

"Eich ail argymhelliad yw y dylid defnyddio dull mwy cyson yng nghyswllt datgeliadau trydydd barti trwy ddatblygu cyfarwyddyd manylach. Unwaith eto, rwy'n cefnogi'r argymhelliad hwn. Deallaf eich bod yn cwrdd yn rheolaidd gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'r arweinydd ar Ddatgeliadau yng Nghyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, ac felly ymddengys mai chi yw'r person gorau i drafod a chytuno ar ddull mwy cyson y gellid ei adlewyrchu mewn cyfarwyddyd."

Rwy'n ddiolchgar am y gefnogaeth hon i'r argymhelliad ac rwyf yn hapus fy mod yn rhan o ddatblygu cyfarwyddyd ar y mater pwysig hwn. Nid wyf yn gallu newid y Cyfarwyddyd Statudol ar Ddatgeliadau, gan mai'r Swyddfa Gartref sydd berchen ar y ddogfen hon. Yn yr un modd,

mae'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd (QAF), a ddefnyddir gan dimau datgelu'r heddlu wrth lunio eu penderfyniadau datgelu, yn eiddo i'r Heddlu a'r DBS ar y cyd.

Yn fy Adroddiad Blynyddol 2012-13, codais fater am ddatgelu gwybodaeth yn ymwneud â salwch meddwl unigolyn. Derbyniodd y Swyddfa Gartref yr argymhelliad ac o ganlyniad diwygiwyd y Cyfarwyddyd Statudol. Roedd 'Secstio' yn fater arall oedd yn peri pryder i'r Swyddfa Gartref. Arweiniwyd y trafodaethau am y mater hwn gan y Swyddfa Gartref, ac yn dilyn hynny diwygiwyd y Fframwaith Sicrhau Ansawdd.

Rwyf yn cyfarfod yn gyson â'r Heddlu a'r DBS ac rwyf wedi gallu dylanwadu ar rai diwygiadau bychan ond pwysig i'r broses ddatgelu er enghraifft y ffordd y mae risg yn cael ei disgrifio ar ddatgeliad. Hwn oedd y lefel cywir i'r mater hwn gael ei ddatrys.

Mae mater datgeliadau trydydd barti yn un, yr wyf fi'n credu, sydd angen dull tebyg, gydag ymgysylltu ar lefel ehangach gan y Swyddfa Gartref, y DBS a'r Heddlu a dylai hefyd gynnwys rhanddeiliaid allanol. Felly, byddwn yn annog i'r mater hwn gael ei arwain gan yr uned briodol yn y Swyddfa Gartref.

Cyfeiriodd ymateb yr Ysgrifennydd blaenorol hefyd at argymhelliad o'm Hadroddiad Blynyddol am 2014 y dylid cyflwyno cyfyngiad amser ar gyfer herio datgeliadau

Nododd yr Ysgrifennydd Cartref ar y pryd;

"Rwy'n ymwybodol bod eich ail argymhelliad [yn 2014] i gyflwyno cyfyngiad amser ar gyfer herio datgeliad eto i'w gytuno gan fod angen addasiad i'r brif ddeddfwriaeth. Ers cyhoeddi eich Adroddiad Blynyddol 2014, deallaf fod yr angen i geisio cyfle cyfreithiol i gyflwyno terfyn amser ar gyfer herio achosion o ddatgeliad wedi lleihau gan eich bod chi'n defnyddio proses newydd a ddylai leihau'r ceisiadau hyn yn sylweddol. Rwy'n gwerthfawrogi'ch parodrwydd i geisio datrysiad nad yw o fath cyfreithiol i'r mater hwn a byddwn yn ddiolchgar petaech yn parhau i adolygu'r mater hwn a rhoi gwybod i mi am unrhyw broblemau sylweddol."

Rwy'n falch o gael cefnogaeth yr Ysgrifennydd Cartref blaenorol yng nghyswllt fy null o ymdrin â'r mater hwn. Tra'r wyf wedi cyflwyno proses i ymdrin â'r mathau hyn o achosion sydd wedi lleihau effaith yr achosion hyn ar unedau datgeliadau'r heddlu. Credaf y byddai o fudd i'r broses ddatgelu gyffredinol petai'r mater yn cael ei gynnwys mewn deddfwriaeth yn y dyfodol er mwyn gallu arbed amser gwerthfawr i bob ochr sy'n ymwneud â'r broses ddatgelu.

## Ymgysylltu

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi parhau i fynychu Fforymau Datgelu Rhanbarthol a Chenedlaethol yr Heddlu, ynghyd â chyfarfodydd Grŵp Portffolio Datgelu'r Heddlu. Rwyf wedi ymweld â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn Lerpwl ac Access Northern Ireland (ANI) yn Belfast. Rwy'n parhau i gwrdd yn rheolaidd ag arweinwyr gweithredol o'r DBS, ANI, NPCC ac unedau datgeliadau'r heddlu er mwyn dynodi materion sy'n peri pryder. Y dull gweithredu a ddefnyddiais oedd delio â materion o'r fath wrth iddynt godi trwy gydol y flwyddyn yn hytrach nac aros am fy adroddiad blynyddol fel yr unig fodd o godi pryderon a dynodi meysydd i'w gwella.

## Samplo achosion.

Rwyf hefyd wedi ymgymryd ag ymarfer samplo o heriau 2017 fel sy'n ofynnol o dan adran 119B Deddf yr Heddlu 1997. Roedd yr achosion yn cynnwys y rhai lle'r oedd yr heddlu wedi datgelu gwybodaeth yn ogystal â rhai pan oeddynt wedi dewis peidio â datgelu gwybodaeth. Rwyf wedi samplo 45 o achosion Datgeliadau Manwl a 23 achos o'r Gwasanaeth Diweddaru. Roedd yr achosion yma gan 12 llu heddlu. Yn ychwanegol, dynodais 5 llu heddlu, nad wyf wedi derbyn unrhyw achosion herio ganddynt. Yna adolygais 30 achos ychwanegol o'r lluoedd heddlu hynny.

Ymhlith yr achosion hyn, rwyf wedi cynnal adolygiad o sampl o achosion gan Wasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon.

Ar ôl fy ngwaith samplo ar hap rwyf wedi rhoi adborth i bob un o'r lluoedd heddlu yr wyf wedi adolygu eu hachosion ac o'r achosion yr wyf wedi eu samplo yn ystod y flwyddyn hon neu flynyddoedd blaenorol nid wyf wedi dynodi unrhyw broblemau arwyddocaol. Efallai bod hyn yn adlewyrchu bod llunio penderfyniadau yn gyson a bod unedau datgeliadau'r heddlu yn cydymffurfio â'r QAF a byddai hyn yn ganlyniad cadarnhaol.

Fy mwriad yn y flwyddyn adrodd 2018 yw ehangu'r ymarfer samplo yn ôl thema neu alwedigaeth ac rwyf ar hyn o bryd yn gweithio gydag Uned Safonau a Chydymffurfio'r DBS i symud hyn ymlaen. Byddaf yn rhoi adroddiad yn fy Adroddiad Blynyddol am 2018.

## Argymhellion

Nid oes gennyf unrhyw argymhellion penodol i'w gwneud eleni.

## Casgliad

Mae nifer o faterion parhaus sy'n cael effaith ar y broses ddatgelu. Rwyf yn falch bod fy argymhellion blaenorol wedi cael eu derbyn ac rwyf yn edrych ymlaen at weithio gyda'r partïon perthnasol i symud y rhain ymlaen dros y misoedd nesaf.

Rwyf yn parhau yn ddiolchgar am y gefnogaeth yr wyf yn ei chael gan fy Ysgrifenyddiaeth a'u hymdrechion parhaus i reoli fy maich gwaith ynghyd ag ymholiadau gan ymgeiswyr a'u cynrychiolwyr.



**Simon Pountain**

## Pwerau y mae'r Monitor Annibynnol yn gweithredu ynddynt

Mae'r Monitor Annibynnol yn cael ei benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 119B Deddf yr Heddlu 1997 ac mae ganddo ddwy ddyletswydd statudol yn ymwneud â datgelu gwybodaeth ar Dystysgrif Fanwl o Gofnod Troseddol unigolyn.

Yn gyntaf, yn unol ag adran 119B Deddf yr Heddlu 1997 (Deddf 1997), rhaid i'r Monitor Annibynnol adolygu sampl o achosion lle mae gwybodaeth pan na fu collfarn gan yr heddlu yn cael ei chynnwys, neu nad yw'n cael ei chynnwys, ar dystysgrifau manwl o gofnod troseddol o dan adran 113B(4) y Ddeddf. Diben yr adolygiadau hyn yw sicrhau cydymffurfiad ag Arweiniad Statudol y Swyddfa Gartref ar ddatgelu ac Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Yn ail, pan wneir cais am Dystysgrif Fanwl, mae manylion unigolyn yn cael eu cyfeirio at unrhyw lu heddlu a allai fod â gwybodaeth am yr unigolyn. Mae hyn yn galluogi i'r llu heddlu wirio eu cofnodion am unrhyw wybodaeth y maen nhw'n credu'n rhesymol sy'n berthnasol i'r diben penodol y mae'r dystysgrif yn cael ei cheisio ac yna ystyried a ddylid ei datgelu. Os nad yw ymgeisydd yn fodlon â'r wybodaeth sy'n cael ei datgelu fe allant gyflwyno cais i'r Monitor Annibynnol am adolygiad. Dan adran 117A Deddf yr Heddlu 1997, mae gan y Monitor Annibynnol rôl wrth adolygu'r achosion hynny pan fydd person yn teimlo bod y wybodaeth sy'n cael ei datgelu gan yr heddlu ar Dystysgrif Fanwl o Gofnod Troseddol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd naill ai yn amherthnasol i'r gweithlu y maen nhw'n ymgeisio ar ei gyfer, neu na ddylid ei datgelu.

## Gweithrediad yr Ysgrifenyddiaeth a swyddogaeth y Monitor Annibynnol

Cyflwynwyd rôl y Monitor Annibynnol wrth adolygu atgyfeiriadau am wybodaeth a ddatgelir gan luoedd heddlu gan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2012. Sefydlwyd Ysgrifenyddiaeth i gefnogi'r Monitor Annibynnol i berfformio'r swyddogaeth hon ym mis Hydref 2012 ac mae bellach yn cynnwys dau aelod o staff llawn amser.

Cyn Hydref 2012 a'r newidiadau a gyflwynwyd gan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, yr unig hawl apelio oedd gan unigolyn a oedd yn anfodlon â'r wybodaeth a oedd yn ymddangos ar ei dystysgrif fanwl oedd i Brif Gwnstabl y llu perthnasol mewn perthynas â chywirdeb y testun. Os oedd yr ymgeisydd yn anfodlon â chanlyniad hyn neu eiriad cyffredinol y testun yna ei unig ddewis oedd ceisio Adolygiad Barnwrol o'r penderfyniad datgelu, a fyddai'n gostus i'r ymgeisydd a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o ran amser ac adnoddau. Mae rôl y Monitor Annibynnol bellach yn gweithredu fel haen adolygu ychwanegol cyn i'r unigolyn droi at Adolygiad Barnwrol.

Ers ei chreu ym mis Medi 2012 hyd at ddiwedd Rhagfyr 2017, mae'r Ysgrifenyddiaeth wedi derbyn cyfanswm o 1536 o atgyfeiriadau gan unigolion sy'n pryderu am y wybodaeth a ddatgelir ar eu tystysgrifau datgelu. Mae'r papurau achos yn cynnwys tystysgrif ddatgelu a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gydag unrhyw ddogfennau herio am y wybodaeth a ddatgelir y gallai'r ymgeisydd fod wedi'i godi gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn y gorffennol. Unwaith y mae achos yn cael ei dderbyn, bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn gofyn i'r heddlu am wybodaeth yn ymwneud â'r achos ac i'r ymgeisydd am unrhyw sylwadau ychwanegol y mae'n dymuno eu gwneud. Ar ôl derbyn y sylwadau mae'r achos atgyfeirio yn cael ei gyflwyno i'r Monitor Annibynnol i'w adolygu.

Wrth benderfynu am gynnwys gwybodaeth ar dystysgrif, a gan ddilyn cyfarwyddyd statudol, mae'r Monitor Annibynnol yn ystyried:

1. A yw'r wybodaeth a ddarperir yn gywir;
2. A yw'r wybodaeth a ddarperir yn berthnasol i ddiben penodol ceisio'r dystysgrif (yn dilyn newidiadau polisi yn 2012 mae hyn bellach yn gyffredinol ar gyfer gwaith o fewn gweithluoedd plant neu oedolion yn hytrach nac yn benodol i rôl arbennig); ac
3. A ddylai'r wybodaeth gael ei datgelu, gan gynnwys;
   a. Beth yw nod cyfreithlon y datgelu;
   b. A yw'r datgeliad yn angenrheidiol i gyflawni'r nod cyfreithlon hwnnw; ac

c. A yw'r datgeliad yn gymesur, yn bwrw cydbwysedd teg rhwng hawliau'r ymgeisydd a hawliau'r rheini y mae'r datgeliad yn ceisio'u hamddiffyn.

Mae'r holl feini prawf yn cael eu hystyried yn gyfartal, nid oes pwysoli. Unwaith y mae penderfyniad yn cael ei wneud bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn ysgrifennu at yr ymgeisydd, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a phrif swyddog yr heddlu perthnasol yn eu hysbysu o benderfyniad y Monitor Annibynnol.

Yn ychwanegol at ddarparu penderfyniadau ar geisiadau am adolygiad o ddatgeliad prif swyddog o wybodaeth gymeradwy, mae'r Monitor Annibynnol wedi ymgymryd hefyd â'r ymarfer samplo gofynnol o dan a119B (5) Deddf 1997. Mae'r ymarfer wedi cynnwys samplo gwybodaeth yr heddlu a roddir ar Dystysgrifau Manwl ar gyfer nifer o luoedd. Yn dilyn yr adolygiadau hyn mae'r Monitor Annibynnol wedi rhoi adborth i luoedd i sicrhau ansawdd a chydymffurfiad â Chyfarwyddyd Statudol.

## Eglurhad


Mae fy rôl yn wahanol i'r Adolygydd Cwynion Annibynnol ar gyfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fel penodai statudol, fy rôl yw ystyried apeliadau gan ymgeiswyr sy'n anghytuno â chynnwys gwybodaeth pan na fu collfarn ar dystysgrifau datgelu manwl a gyhoeddir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae angen tystysgrifau o'r fath ar gyfer y rheini sy'n dymuno gweithio gyda phlant ac oedolion bregus ac mewn rhai meysydd penodol eraill megis gyrru tacsi.

Mae'r Adolygydd Cwynion Annibynnol yn adolygu cwynion am y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac yn cynnig cyngor adeiladol am y ffordd y mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn delio â chwsmeriaid a sut y mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn trin cwynion.

## Atgyfeiriadau Achosion y Monitor Annibynnol: Crynodeb 2017

Dengys y siart isod ganlyniadau'r atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan y Monitor Annibynnol yn 2016 o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Mae hefyd yn dangos yr un wybodaeth am y cyfnod rhwng mis Medi a Rhagfyr 2012 yn dilyn cyflwyno rôl y Monitor Annibynnol. Mae 'cadarnhau' yn cyfeirio at yr achosion hynny lle'r wyf wedi cefnogi datgeliad yr heddlu yn llwyr.


**Siart 1**




Nodyn: Nid yw'r ffigyrau ar gyfer 2017 yn cyrraedd 237 gan fod 14 achos yn aros am adolygiad.

Mae'r siart a ganlyn yn dadansoddi'r categori 'canlyniad arall' uchod i ddangos y ffordd y deliwyd â'r achosion.

**Siart 2**




Yn gyffredinol gellir gweld bod cyfanswm nifer yr atgyfeiriadau wedi aros yn debyg iawn i'r nifer ar gyfer 2016. Esboniais y gostyngiad yn niferoedd yr achosion y llynedd trwy gyfeirio at y newidiadau yn y ffordd y gofynnwyd i'r heddlu fynegi risg yn y testun datgelu. Credaf bod y niferoedd cyson ar gyfer eleni yn cefnogi'r farn honno ac rwyf yn falch bod y newidiadau hyn wedi cael effaith bositif.

Rwyf wedi parhau gyda’m polisi o beidio ag adolygu’r achosion hynny pan fydd yr her yn cael ei chyflwyno ymhen cyfnod sylweddol ar ôl i’r datgeliad gael ei wneud a phan na fydd y diben a nodwyd yn bodoli bellach neu ei bod yn rhesymol credu bod hynny’n wir.

Mae categori i'w weld yn y siart uchod hefyd ar gyfer achosion wedi'u diwygio. O bryd i'w gilydd, ceir achosion pan fyddaf yn teimlo bod angen diwygio datgeliad yn hytrach na dileu testun. Gallai hyn fod pan fyddai dileu yn gadael y testun yn anghywir yn ramadegol neu pan wyf yn meddwl bod y datgeliad wedi'i eirio'n oddrychol. Yn yr achosion hyn, byddaf yn trafod gyda’r Prif Swyddog i gytuno ar eiriad wedi ei ddiwygio.

Rwyf wedi gwrthod adolygu chwe achos eleni. Mewn dau o’r achosion esboniodd yr ymgeisydd nad oedd bellach yn ceisio’r rôl yr oedd wedi ymgeisio amdani; mewn un achos roedd y corff cofrestredig wedi dynodi yn anghywir bod y rôl yn gweithio o gartref a chynghorais y dylai hyn gael ei ddatrys ar gais arall; mewn dau achos roedd yr heddlu yn dal i ystyried yr achos ac yn yr achos olaf roeddwn yn ystyried bod y broses herio heb ddod i ben rhwng yr ymgeisydd a’r heddlu ac o ganlyniad cytunwyd ar destun datgelu heb fod angen i mi adolygu’r achos ymhellach.

Mae pedwar ar ddeg o achosion o 2017 yn aros am gael eu hadolygu. Dyma’r achosion yr wyf wedi cyfeirio atynt yn fy nghyflwyniad yr wyf wedi eu dychwelyd i’r lluoedd heddlu i’w hystyried ganddynt o ran yr adolygiadau barnwrol diweddar ar SD v North Yorkshire Police a LG v Independent Monitor.


Rwyf wedi ymrwymo i roi blaenoriaeth i’r achosion hyn ar ôl i’r mater gael ei ddatrys ac i’r achosion gael eu dychwelyd ataf i.

## Gweithluoedd yr ymgeisiwyd amdanynt.

Mae'r siart a ganlyn yn dangos cymhariaeth o'r gweithluoedd y mae ceisiadau am adolygiadau wedi'u derbyn ar eu cyfer.

O’r siart, fe welir bod y gyfran o achosion ym mhob gweithlu yn parhau’n gyson â blynyddoedd blaenorol ac nid wyf wedi sylwi ar unrhyw newid yn y gweithluoedd o ran herio gwybodaeth. Gellir gweld o'r siart bod mwyafrif yr heriau gan ymgeiswyr sydd wedi ymgeisio i weithluoedd Plant ac Oedolion. Mae’n parhau yn wir bod mwy o wybodaeth yn cael ei hystyried gan yr heddlu yn yr achosion hyn oherwydd hygludedd ehangach y dystysgrif a chan hynny yn aml mae’n wir bod unigolion yn pryderu nad yw'r wybodaeth sy'n cael ei datgelu yn berthnasol i'r rôl benodol yr ymgeisir amdani.

**Siart 3**




Nodyn: Ni chofnodwyd unrhyw heriau yn y categori 'Gweithlu arall' yn 2012 na 2013 gan fod Gyrwyr Tacsi yn cael eu hystyried yn rhan o'r gweithlu Plant yn ystod y blynyddoedd hynny.

## Atodiad A. Ymateb y Llywodraeth i Adroddiad blynyddol 2017.

Home Office

**Home Secretary**
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

2 Marsham Street
London
S1P 4DF

17 Medi 2018

Annwyl Simon,

Diolch am eich Adroddiad Blynyddol 2017 y bwriadaf ei gyhoeddi ar gov.uk yn fuan. Llwyddodd eich adroddiad i roi cipolwg defnyddiol ar ddatgelu gwybodaeth yr heddlu ar dystysgrifau cofnodion troseddol manwl (ECRCs) a'ch gwaith ar fforymau datgelu rhanbarthol i ddatblygu cysondeb wrth weithredu.

Sylwaf nad ydych wedi gwneud unrhyw argymhellion newydd yn yr adroddiad hwn, ond eich bod wedi ailadrodd y rhai a wnaed gennych yn y gorffennol. Ar ôl ystyried y rhain, rwyf wedi nodi ein hymateb isod.

**Argymhellion Blaenorol**

Mynediad at Drawsgrifiadau Llys

Rwy'n nodi bod fy rhagflaenydd wedi cefnogi eich argymhelliad y dylid ychwanegu'r heddlu at restr o'r asiantaethau hynny sy'n gallu sicrhau trawsgrifiadau llys heb geisio cymeradwyaeth ymlaen llaw gan farnwr yr achos. Cododd fy swyddogion hyn gyda Nick Adderley, arweinydd Datgelu'r NPCC a byddwn yn cynorthwyo yn ôl y gofyn. Rwy'n nodi eich cais i mi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol Cyfiawnder, yn ogystal ag at yr Arglwydd Ganghellor, a byddwn yn awgrymu eich bod yn adolygu'r sefyllfa hon yn gyson, ac os bydd y sefyllfa yn parhau ar ôl i'r NPCC gyflwyno eu dadl, i roi gwybod i mi er mwyn i mi ail-ystyried y cam hwn.

Datgeliadau Trydydd Barti

Cefnogodd fy rhagflaenydd eich argymhelliad y dylid defnyddio dull mwy cyson yng nghyswllt datgeliadau trydydd barti trwy ddatblygu cyfarwyddyd manylach, ac rwyf yn cytuno â'r bwriad sy'n sail i'r argymhellion hyn. Rwy'n nodi'r cam arfaethedig, eich bod yn cyfarfod â chynrychiolwyr y DBS ac NPCC i drafod cysondeb yn y dull y gellid ei adlewyrchu mewn cyfarwyddyd. Rwy'n sylweddoli gan bwy y mae'r cyfrifoldebau am ddiweddaru'r cyfarwyddyd perthnasol, a bydd fy swyddogion yn cadw llygad ar y mater hwn yng ngoleuni eich trafodaethau.

<u>Cyfyngiad Amser i Herio Datgeliadau</u>

Fel y gwyddoch, bydd eich argymhelliad i gyflwyno cyfyngiad amser ar gyfer herio datgeliadau yn gofyn am ddiwygio deddfwriaeth, ond rwy'n ymwybodol eich bod wedi cyflwyno proses newydd i leihau'r nifer o geisiadau o'r fath, ac rwyf yn deall nad oes cymaint o frys am y diwygiad hwn. Rwy'n ailadrodd y diolch a gynigiwyd i chi gan fy rhagflaenydd am yr ateb blaengar hwn i fater heriol. Rwy'n nodi eich datganiad eich bod yn credu y dylid ymdrin â hyn trwy ddiwygiad cyfreithiol er budd y broses ddatgelu yn gyffredinol, a byddwn yn gofyn i fy swyddogion ystyried pryd y gall cyfle priodol i symud hwn ymlaen ddigwydd.

Diolchaf i chi am eich gwaith pwysig dros y cyfnod diwethaf.



**Y Gwir Anrhydeddus Sajid Javid AS**

## Atodiad B: Tabl o argymhellion blaenorol.

| Argymhelliad | Blwyddyn y'i gwnaed | statws | Sefyllfa bresennol |
|---|---|---|---|
| Iechyd Meddwl | 2013 | Wedi'i dderbyn | Mae'r arweiniad statudol bellach wedi'i ddiwygio yng nghyswllt achosion Iechyd Meddwl ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Awst 2015. |
| Galwedigaethau yn y Cartref | 2013 | Wedi'i dderbyn yn Rhannol | Diwygiodd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gyfarwyddyd yr ymgeisydd a RB yn 2015 a hyrwyddo hyn yn Newyddion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. |
| Gweithlu v Swydd yr Ymgeisiwyd Amdani | 2013 | Heb ei Derbyn | Mater wedi'i godi eto yn Adroddiad Blynyddol 2014. Canlyniad hyn oedd ail-ddweud yr ymateb blaenorol. |
| Cyrff Cofrestredig | 2013 | Wedi'i dderbyn | Gweithiodd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gyda NACRO a CIPD i ddatblygu arweiniad ar gyfer cyflogwyr ar sut i drin ac asesu gwybodaeth sy'n ymddangos ar dystysgrif ddatgelu. |
| Cyfyngiad Amser Statudol ar gyfer heriau | 2014 | Wedi'i dderbyn ac yn aros i'w ddatblygu ymhellach. | |
| Proses ffurfiol i adolygu argymhellion | 2014 | Wedi'i dderbyn. | Strwythur cyfarfod mewn grym. |
| Unedau Datgelu'r Heddlu i gael mynediad at Drawsgrifiadau Llys | 2015 | Wedi'i dderbyn ac yn aros i'w ddatblygu ymhellach. | |
| Datblygu arweiniad ar Ddatgeliadau Trydydd Barti | 2015 | Wedi'i dderbyn ac yn aros i'w ddatblygu ymhellach. | |